**Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth.

Eluned Morgan
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
24 Mawrth 2021

**Rhan 1 - Trosolwg**

## 1. Disgrifiad

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y papur gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, sy'n nodi cynllun uchelgeisiol i greu dull integredig newydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn cyflawni'r dull newydd hwn, deddfwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014').

Mae Deddf 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, y bwriad yw y daw i rym ar 1 Medi 2021. Mae'r cod yn disgrifio sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (a ddiffinnir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014) yn unol â'r gofynion yn y cod mewn perthynas â phobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Mae'r cod hefyd yn berthnasol i arfer swyddogaethau gwasanaethau iechyd gan fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n disgrifio sut y mae'n rhaid i'r cyrff iechyd perthnasol arfer eu priod swyddogaethau wrth ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr.

Mae'r cod yn disgrifio sut y dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â:

- Trefniadau ar gyfer Asesiad a Diagnosis o Awtistiaeth.
- Trefniadau ar gyfer Cael Mynediad at Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant mewn Awtistiaeth.
- Trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio a Monitro ac ymgysylltu â Rhanddeiliaid,

Er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau polisi awtistiaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r pwerau sy'n galluogi gwneud y cod hwn wedi'u cynnwys yn adrannau 145 a 146 o Ddeddf 2014.

Mae'r cod yn gyfystyr â chanllawiau pan gânt eu cyfeirio at y cyrff gwasanaeth iechyd perthnasol yn unol ag adran 2 o Ddeddf 2006. Bydd Gweinidogion Cymru

yn rhoi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd lleol (o dan adrannau 12 a 19 o Ddeddf 2006 ) ac i Ymddiriedolaethau’r GIG (o dan adrannau 12 a 19 o Ddeddf 2006) i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny roi sylw i'r gofynion perthnasol a bennir yn y cod.

Mae'r cod hefyd yn gyfystyr â chanllawiau i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o dan adran 169 o Ddeddf 2014 mewn perthynas ag arfer swyddogaethau perthnasol drwy'r trefniadau partneriaeth a roddwyd yn rhinwedd adrannau 166 i 168 o Ddeddf 2014 ac mewn rheoliadau a wneir o dan adran 166.

## 3. Cefndir Deddfwriaethol

### Pŵer i Gyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

Mae'r pwerau sy'n galluogi gwneud y cod hwn wedi'u cynnwys yn adrannau 145 a 146 o Ddeddf 2014. Mae'r Cod yn dilyn gweithdrefn negyddol ddrafft y Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Yn dilyn pleidlais lwyddiannus yn 2017, cyflwynwyd Bil Awtistiaeth Cymru i'r Cynulliad gan Paul Davies AC yn 2018, gyda’r nod o geisio gwella gwasanaethau awtistiaeth[1]. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y ddeddfwriaeth bresennol yn ddigonol i sicrhau gwell canlyniadau i bobl awtistig. Ym mis Ionawr 2019, gwrthodwyd y bil gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ddiwedd y gwaith Craffu Cyfnod Un.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod gan bobl awtistig anghenion cymorth ychwanegol ac mae wedi ymrwymo i dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau awtistiaeth drwy gyflwyno cod ymarfer statudol ar awtistiaeth. Bydd y cod hwn yn sail i ddarparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2014 a chan fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG o dan Ddeddf 2006 i sicrhau bod gwasanaethau perthnasol yn cael eu darparu sy'n diwallu anghenion pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr.

Bydd y cod yn dod â chynaliadwyedd i'r gwelliannau i wasanaethau a gyflawnwyd drwy'r Cynllun Gweithredu Strategol Awtistiaeth a gyhoeddwyd gyntaf yn 2008 ac a adnewyddwyd yn 2016. Mae'r cod yn hyrwyddo gwella gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- cael mynediad at wasanaethau asesu a diagnostig a sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal a chymorth yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion yr holl bobl awtistig;
- codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a sicrhau bod anghenion hyfforddi awtistiaeth staff yn cael eu hasesu a bod hyfforddiant ar gael sy'n bodloni gofynion pob swydd;

[1] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=19233

- yn y ffordd y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn nodi ac yn monitro anghenion pobl awtistig yn eu hardaloedd er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau;
- gwella integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau i atal unigolion rhag syrthio rhwng cyfrifoldebau gwasanaeth;
- hyrwyddo cyfranogiad pobl awtistig yn y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Bydd y cod hwn hefyd yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ac yn ei gefnogi mewn meysydd cysylltiedig fel y diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn addysg.

## 4. Ymgynghori

Mae adran 146(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar god drafft cyn cyhoeddi neu ddiwygio cod o dan adran 145. Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ar gynigion ar gyfer y cod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2019. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen ymgynghori hefyd. Cynhaliwyd tri digwyddiad mawr i randdeiliaid rhanbarthol a chafwyd 65 o ymatebion ysgrifenedig. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymateb ym mis Mehefin 2019[2]. Trefnwyd grwpiau technegol ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020 ar ddatblygu'r cod drafft ymhellach.

Yna ymgysylltwyd ymhellach ar y cod drafft, yn cynnwys dau ddigwyddiad ymgynghori rhanbarthol mawr â rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2020 ac amrywiaeth o gyfarfodydd ychwanegol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Colegau Meddygol Brenhinol;
- Gofal Cymdeithasol Cymru;
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru;
- Arweinwyr Gweithlu Awdurdodau Lleol;
- Arweinwyr awtistiaeth awdurdodau lleol ac iechyd;
- Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaethau niwroddatblygiadol;
- Grŵp Cynghori ar Awtistiaeth Llywodraeth Cymru;
- Grŵp Cynghori Gweinidogol Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru;
- Datblygu polisi diwygio anghenion dysgu ychwanegol;
- Grwpiau rhanddeiliaid awtistiaeth rhieni ac oedolion.

Roedd yr adborth a gafwyd yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer y cod a gwnaed awgrymiadau pellach ar gyfer gwella, gan gynnwys y cais am fwy o fanylion mewn sawl maes megis cydymffurfio a sut yr oedd disgwyl i gyrff statudol fodloni gofynion y cod. Er mwyn diogelu hirhoedledd y cod a sicrhau bod y

[2] Llywodraeth Cymru (2019) Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth.

dyletswyddau y mae'n eu cynnwys yn glir, bydd dogfen ganllaw ar wahân hefyd yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r cod.

Roedd ymgynghoriad pellach ar y cod a'r canllawiau drafft wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2020, fodd bynnag oherwydd effaith pandemig COVID-19 gohiriwyd hyn tan fis Medi 2020. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad deuddeng wythnos ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru rhwng 21 Medi a 14 Rhagfyr, cafodd ei ddosbarthu ar wahân i gysylltiadau a'i hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, drwy Facebook a Twitter, a chyhoeddwyd fersiwn Hawdd ei Darllen hefyd. Oherwydd cyfyngiadau parhaus ar gadw pellter cymdeithasol oherwydd COVID-19, ni ellid cynnal digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb. Yn lle hynny, cynhaliwyd dau ddigwyddiad gweminar mawr ym mis Tachwedd a chynhaliwyd trafodaethau unigol gyda rhanddeiliaid pan ofynnwyd amdanynt. Cynhaliodd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ddigwyddiadau ymgynghori gyda'u haelodau hefyd.

Cafwyd cyfanswm o 251 o ymatebion - 102 o ymatebion ysgrifenedig i'r ddogfen ymgynghori a 149 arall gan gyfranogwyr yn ymgynghoriad y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a lle bo angen gwnaed diwygiadau i'r cod terfynol a'r dogfennau canllaw. Cyhoeddir adroddiad cryno o'r ymgynghoriad a'r camau a gymerwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r cod terfynol. Roedd y prif feysydd adborth a gafwyd yn ymwneud â’r canlynol:

- terminoleg – gan gynnwys parhau i ddefnyddio'r term cyflyrau sbectrwm awtistiaeth;
- alinio â pholisi ac arferion niwroddatblygiadol/niwroamrywiaeth ehangach;
- yr effaith ar ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol ac alinio â hwy;
- yr effaith ar bolisi ac arferion iechyd meddwl ac alinio â hwy;
- monitro cydymffurfiaeth ac adrodd.

**Rhan Dau Asesiad Effaith Rheoleiddiol RHAN 2**

Nid yw'r cod yn is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol ac am y rheswm hwnnw nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol o dan adran 4.2 o God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru.

Ystyriwyd a oedd effaith y cod yn cyfiawnhau cwblhau Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Nid yw'r cod yn gosod gofynion ychwanegol, ond mae'n dangos sut y gall sefydliadau fodloni gofynion y ddeddfwriaeth bresennol. Felly, nid yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau.

Mae'r cod wedi bod yn destun sbectrwm eang o asesiadau effaith gan gynnwys: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r asesiadau effaith hyn wedi dangos nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar unrhyw un o'r meysydd dan sylw. Bydd yr asesiadau effaith hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru llyw.cymru.